# Astudiaeth Achos

## ESTYN a newidiadau i'r seilwaith

Ysgol Gynradd Romilly

Y Barri, Bro Morgannwg

Ysgol Gynradd



Ffigur 1: Adeiladu cysgod beiciau gyda to eco. ©*Cyngor Bro Morgannwg*

## Cefndir

Mae Ysgol Gynradd Romilly'n gwasanaethu poblogaeth amrywiol o ddisgyblion ers dros 100 mlynedd. Cychwynnwyd y cynllun teithio llesol gan lywodraethwr ysgol angerddol a'r dirprwy bennaeth er mwyn ceisio datrys problemau hygyrchedd a phryderon diogelwch oherwydd traffig trwm yn ystod amseroedd codi/gollwng plant.

Roedd yr ysgol eisoes wedi cymryd rhan mewn sawl menter teithio llesol, fel traciwr 'WOW' Living Streets, rhaglen Teithiau Llesol Sustrans a'r Arolwg Cenedlaethol ar Deithio i'r Ysgol 'Dwylo i Fyny', gan greu cynllun teithio llesol er mwyn hyrwyddo iechyd disgyblion ymhellach ac annog hyd yn oed mwy o ddisgyblion i deithio'n llesol.

## Elfennau allweddol

Rhai o'r elfennau allweddol oedd gwella mannau gollwng / codi i annog pobl i beidio parcio'n beryglus, creu cyfleon i ddisgyblion deithio'n llesol, a gweithio gyda thîm Teithio Llesol Cyngor Bro Morgannwg i ganfod ffyrdd i leihau tagfeydd traffig.

## Cyflawniadau

Mae'r cynllun teithio llesol i'r ysgol wedi bod yn hwb sylweddol i ymdrechion yr ysgol i hyrwyddo teithio llesol.

Ar sail data a gasglwyd drwy holiadur rhieni, ynghyd ag ysgrifennu'r cynllun, llwyddwyd i sefydlu storfa feics / sgwteri ychwanegol yn 2024.

Yn ogystal, oherwydd y cydweithio rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol, llwyddwyd i greu lloches beiciau newydd gyda tho eco gwyrdd, gan gadw beics yn sych a chreu bio-gynefin i bryfed. Gwnaed hyn yn bosibl trwy gyllid ychwanegol a roddwyd gan Bartneriaeth Natur Leol y Fro.

Mae'r ysgol yn gobeithio parhau i gydweithio gyda Sustrans Cymru a rhieni/gofalwyr i ddatblygu mentrau a arweinir gan y gymuned. Dyma ambell enghraifft:

- Treialu bws cerdded dan arweiniad rhieni ar hyd llwybr prysur
- Ffurfio gweithgor teithio llesol, a fydd yn hwyluso mwy o ymgysylltiad gan rieni a disgyblion.

Aeth yr ysgol drwy arolwg Estyn yn ddiweddar. Roedd Corff Llywodraethu'r ysgol yn falch o dynnu sylw at y ffaith bod teithio llesol yn flaenoriaeth i gymuned yr ysgol a bod gwelliannau wedi'u gwneud i seilwaith yr ysgol o ganlyniad uniongyrchol i'r cynllun teithio llesol i'r ysgol.

## Dyfyniad

**"Mae'r disgyblion yn gwybod sut i gadw eu hunain yn iach ac yn heini ac roedd eu cynllun teithio llesol yn rhan o hynny, yn benodol o ran dangos sut mae'r ysgol yn annog ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff a symud."**

- *Adroddiad ESTYN*

**"Rwy'n frwd dros yr holl fesurau a awgrymwyd. Maen nhw'n gyfle gwych i newid y sefyllfa gyfredol, sydd ddim yn ddelfrydol."**

- Pennaeth Ysgol Gynradd Romilly

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government